# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

## CYMRAEG AIL IAITH
## UG/UWCH

## HAF 2013

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2013 TAG CYMRAEG AIL IAITH. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.


| | Tudalen |
|---|---|
| CA3 | 1 |
| CA5 | 6 |
| CA6 | 10 |


© WJEC CBAC Cyf.

## CA3

### Adran A – Defnyddio'r Iaith

**C.1 Cyfanswm 20 marc (10 x 2 = 20)**

**2 farc** am bob brawddeg sydd yn dangos yn eglur ystyr a defnydd yr eitemau ac yn berffaith gywir o ran cywirdeb iaith.

**1 marc** os dangosir yn eglur ystyr a defnydd yr eitemau, ond cosbir ½ marc am fân wallau iaith (treiglo, sillafu, atalnodi) yn ogystal â ½ marc am wallau cystrawennol.

**0 marc** os nad yw'r ystyr yn hollol glir.

Ni ddyfernir unrhyw farc os nad yw'r ymgeisydd wedi dilyn y rwbric.

**C.2** Dyfernir 2 farc am bob brawddeg sydd wedi ei chywiro'n berffaith gywir. **Ni ddyfernir hanner marciau.** RHAID BOD YN BERFFAITH GYWIR BOB TRO.

**Cyfanswm 20 marc (10 x 2 = 20)**

- Ni ddyfernir unrhyw farc os nad yw'r ymgeisydd wedi copïo'r frawddeg yn gywir – mae hyn yn cynnwys peidio â chopïo gofynnod
- Os nad yw'r ymgeisydd yn copïo'r frawddeg gyfan wrth gywiro'r camgymeriad yna ni ellir dyfarnu marciau
- Gellir dyfarnu marciau os nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio prif lythrennau ar ddechrau pob brawddeg

**Atebion cywir:**

(a) Gofynnwch <u>amdano</u> fe.
(b) <u>Edrychon</u> nhw ar y newyddion ar y teledu.
(c) <u>Roeddwn i</u> wedi gweld y ffilm o'r blaen.
(ch) Byddwn <u>ni'n</u> sefyll arholiad arall yfory.
(d) Mae llawer o <u>bobl</u> wedi bod yn siopa heddiw.
(dd) Dwy <u>flwydd</u> oed yw'r plentyn bach.
(e) <u>Weithiau</u> rwy'n mynd am dro yn y wlad.
(f) Maen nhw wedi symud <u>tŷ</u> yn ddiweddar.
(ff) <u>Dylen</u> ni wybod y gwaith erbyn hyn.
(g) Dyna'r ferch <u>sy'n</u> canu yn y gyngerdd.

© WJEC CBAC Cyf.

**C3. Cyfanswm 20 marc**

Bwriad y cwestiwn hwn ydy profi a ydy'r ymgeiswyr yn gallu ysgrifennu'n bersonol ar bwnc penodol gan arddangos y gallu i ddefnyddio iaith yn y cywair priodol.

| | |
|---|---|
| **A**<br>**16-20** | ● mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir<br>● saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus<br>● rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>● arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **B**<br>**14-15** | ● mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir<br>● cynllunio'u gwaith yn fanwl<br>● rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn briodol<br>● arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen |
| **C**<br>**12-13** | ● mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir<br>● cynllunio gwaith yn ofalus<br>● rhoi sylw i gywair drwy amrywio'r arddull<br>● arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen |
| **D**<br>**10-11** | ● mynegi eu hunain yn eithaf clir a chywir<br>● cynllunio gwaith yn eithaf gofalus<br>● arddangos ymwybyddiaeth o gywair<br>● arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen |
| **E**<br>**7-9** | ● mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan<br>● arddangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>● defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen |
| **U**<br>**0-6** | ● Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig |

© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B**

**Barddoniaeth**

**C.4 Cyfanswm 60 marc**

**Bydd yr ymgeiswyr yn:**

| Gradd | AA2 (a) a (b) | Gradd | AA3 (c) |
|---|---|---|---|
| **A**<br><br>**(a) (b)**<br>**12-15**<br>**(c)**<br>**8-10** | • arddangos gwybodaeth fanwl o'r detholiad<br>• gosod darn o'r gerdd yn ei gyd-destun llenyddol yn fanwl gywir<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol ac yn dangos iddynt eu deall drwy eu cyflwyno'n gywir a chydlynus<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn o'r cysyniadau gan ddadansoddi ac ymresymu'n ddeallus<br>• datblygu ac ehangu syniadau yn drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau'n bwrpasol<br>• cyflwyno dadleuon gwreiddiol gan ymateb yn aeddfed | **A**<br><br>**(a)(b)**<br>**5**<br>**(c)**<br>**8-10** | • mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio eu gwaith yn fanwl a gofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn briodol<br>• mynegi barn yn glir ac yn cefnogi'r farn honno trwy resymu craff<br>• arddangos amrywiaeth eang o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen |
| **B**<br><br>**(a) (b)**<br>**11**<br>**(c)**<br>**7** | • arddangos gwybodaeth dda o'r detholiad<br>• gosod darn o'r gerdd yn ei gyd-destun llenyddol yn gywir<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir a chydlynus<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau gan ymresymu'n ddeallus<br>• datblygu ac ehangu'r prif syniadau yn drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau perthnasol<br>• cyflwyno dadleuon deallus gan ymateb yn briodol | **B**<br><br>**(a)(b)**<br>**4**<br>**(c)**<br>**7** | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio'u gwaith yn ofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• mynegi barn yn glir ac yn ei chefnogi â rhesymau perthnasol<br>• arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C**<br><br>**(a) (b)**<br>**9-10**<br>**(c)**<br>**6** | • arddangos gwybodaeth helaeth o'r detholiad<br>• arddangos dealltwriaeth helaeth o gyd-destun darn o'r gerdd<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth o'r prif gysyniadau<br>• datblygu'r prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas<br>• cyflwyno dadleuon yn ddeallus | **C**<br><br>**(a)(b)**<br>**3**<br>**(c)**<br>**6** | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir wrth ysgrifennu<br>• cynllunio'u gwaith yn ofalus<br>• rhoi sylw i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio peth ar yr arddull<br>• mynegi barn yn effeithiol ac yn ei chefnogi â rhesymau perthnasol<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael eithaf da ar ramadeg a chystrawen |
| **D**<br><br>**(a) (b)**<br>**8**<br>**(c)**<br>**5** | • arddangos gwybodaeth o'r detholiad gan gyflwyno ffeithiau perthnasol yn gywir<br>• arddangos peth dealltwriaeth o gyd-destun darn o'r gerdd<br>• arddangos peth dealltwriaeth o'r prif gysyniadau<br>• datblygu rhai syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau addas ar adegau<br>• cyflwyno rhai dadleuon yn synhwyrol | **D**<br><br>**(a)(b)**<br>**2**<br>**(c)**<br>**5** | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan wrth ysgrifennu testunau uniongyrchol<br>• cyflwyno'u gwaith yn drefnus<br>• arddangos peth ymwybyddiaeth o gywair, ffurf a chynulleidfa<br>• mynegi barn yn uniongyrchol ac yn ei chefnogi â rhesymau<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen |
| **E**<br><br>**(a) (b)**<br>**6-7**<br>**(c)**<br>**4** | • arddangos gwybodaeth o gynnwys y detholiad drwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• egluro rhai agweddau o gyd-destun darn o'r gerdd<br>• cyfeirio at rai elfennau penodol yn y gweithiau a drafodir wrth ddatblygu syniadau<br>• dyfynnu o'r testunau'n achlysurol<br>• cyflwyno dadleuon yn syml iawn | **E**<br><br>**(a)(b)**<br>**1**<br>**(c)**<br>**4** | • mynegi eu hunain yn glir ar y cyfan wrth ysgrifennu testun uniongyrchol<br>• arddangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• mynegi barn gan gynnig rhesymau uniongyrchol<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas |
| **U**<br><br>**(a) (b)**<br>**0-5**<br>**(c)**<br>**0-3** | • Bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig | **U**<br><br>**(a)(b)**<br>**0**<br>**(c)**<br>**0-3** | • Bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig |

© WJEC CBAC Cyf.

(a) **20 marc**

Yn y pennill cyn y dyfyniad:

- dyn hanner cant yn colli ei waith ar ôl i'r ffatri gau
- yn teimlo'n ddiwerth ac yn anobeithiol.

Yn y pennill ar ôl y dyfyniad:

- ar y teledu, ynghanol yr hysbysebion, lluniau trist o ladd, plant yn newynu a phobl yn ymddwyn yn flin
- y dyn di-waith yn ei anobaith yn teimlo bod popeth a'r byd cyfan yn dod i ben.

Yn y dyfyniad dan sylw:

- yn wynebu'r dôl mewn ardal dlawd
- mab yn ymuno â'r fyddin a'r ferch yn mynd i chwilio am waith yn Birmingham. Mae ganddo chwaer yn byw yno
- darlun truenus iawn o'r ardal yn dlawd iawn
- tai ar werth, siopau'n cau, dim o werth ar ôl a'r bechgyn ifanc yn gwneud dim ond mynd i dafarnau yn malu eiddo a pharchu dim
- sloganau a rhegfeydd wedi'u peintio ar y waliau gan y bobl ifanc.

(b) **20 marc**

- cerdd yn y wers rydd. Dim patrwm cyson o odli. Hyd y llinellau'n amrywio
- cyflythreniad: *dyfodol a dôl mewn ardal dlawd.* Cyfosod dau air mewn gwrthgyferbyniad â'i gilydd – *dyfodol* a *dôl.* Sŵn trymaidd y llythrennau yn ychwanegu at ddwyster y sefyllfa
- arddull ryddieithol y pennill cyntaf yn adrodd yn glir yr hyn sy'n digwydd i deulu'r dyn yn sgil yr holl ddiweithdra yn yr ardal
- y mynegiant syml yn adlewyrchu moelni'r dewis sydd gan y plant
- disgrifiadau moel yn yr ail bennill wrth ddisgrifio cyflwr truenus yr ardal
- prinder ansoddeiriau yn cyfleu hagrwch y sefyllfa yn yr ardal ac anobaith y bobl leol
- rhythm arbennig y mynegiant wrth i'r bardd ddisgrifio'r sefyllfa a'r awyrgylch fel y mae.

(c) **20 marc**

Disgwylir ymateb personol gan gyfeirio at destun y gerdd, sef, diweithdra.
Ni ddylid ail-adrodd y cynnwys na'r arddull.

© WJEC CBAC Cyf.

**CA5**

## ADRAN A

### Y Stori Fer

**C.1** (i) **Cyfanswm 20 marc (10 marc** cynnwys: **10 marc** mynegiant)

Rhaid cyfeirio at gynnwys y stori gyfan – gellir disgwyl cyfeiriadau at y canlynol:

- y mab, Elgan yn mynd i'r ysbyty gyda'i dad i weld ei fam
- Elgan, yn gyfreithiwr yng Nghaerdydd ac yn briod ag Elin. Mae dau blentyn ganddynt
- Elgan yn amlwg yn dod ymlaen yn well gyda'i fam na'i dad
- Elgan a'i dad yn sgwrsio gydag Eirwen, y fam. Hithau y fam draddodiadol yn cymdeithasu â gwraig arall yn yr ysbyty, yn holi am deulu Elgan ac yn poeni am ei gŵr
- Rhodri, y brawd, yn gweithio yn y gwaith dur dipyn yn wahanol i'w frawd
- y berthynas rhwng Elgan a'i wraig yn wahanol i berthynas ei fam a'i dad
- Elgan yn mynd gyda'i dad adre yn y car
- ei dad yn ei wahodd i ddod gyda fe i glwb y gweithwyr
- Elgan braidd yn anhapus yn mynd i'r clwb am y tro cyntaf
- yn cwrdd â ffrindiau ei dad ond Elgan yn anghyfforddus yn eu cwmni. Yr awyrgylch yn y clwb yn anghyfarwydd i Elgan
- ffrindiau ei dad yn awyddus iddo aros ar gyfer y cwis ond Elgan yn falch i fedru gwneud esgus ac yn gadael a dychwelyd i Gaerdydd
- Elgan yn amlwg yn byw bywyd gwahanol i'w dad a'i frawd. Ei dad yn ei ffordd ei hun â chryn feddwl o'i fab.

(ii) **Cyfanswm 20 marc (10 marc** cynnwys: **10 marc** mynegiant)

Yn y darn **dan sylw** gellir cyfeirio at:

- y stori wedi'i hysgrifennu yn y trydydd person o safbwynt y mab, Elgan
- y ddeialog yn fywiog ac yn naturiol iawn yn yr amser presennol - y brawddegau'n gwta a sydyn. Dysgwn am y gwahanol gymeriadau drwy gyfrwng y ddeialog
- y defnydd o dafodiaith yn gwneud y sgwrsio'n naturiol iawn. Y ddeialog yn rhoi teimlad cryf o berthyn i ardal benodol. Yma y de-orllewin, *shwd, hebdda i ,odw, dishgwl, sen*
- testun y sgwrsio rhwng y tad a'r fam a rhwng y mab a'r fam yn ymddangos yn ddigon arwynebol a dibwys
- gallu'r awdur i lunio sefyllfa fyw a gweladwy yn yr ysbyty
- y cyfuniad o arddull naratif ac arddull ymgomio drwy'r darn
- mae chwarae rôl yn agwedd bwysig yn y darn o safbwynt y tri chymeriad
- nifer o nodweddion arddull yr awdur yn y darn hwn: y ddeialog, yr iaith anffurfiol, amrywiaeth yn hyd y brawddegau, gwahanol ffurfiau'r ferf – y ffurfiau cwmpasog a'r ffurfiau cryno.

**Disgwylir cyfeiriadau at enghreifftiau penodol yn y darn dan sylw.**

© WJEC CBAC Cyf.

**Y Stori Fer**

| Gradd | AA2 (i)(ii) | Gradd | AA3(i)(ii) |
|---|---|---|---|
| A<br>(i)(ii)<br>8-10 | • arddangos gwybodaeth eang a manwl-gywir o'r testunau<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol ac yn dangos iddynt eu deall drwy eu cyflwyno'n gywir ac yn gydlynus<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn o'r cysyniadau gan ddadansoddi ac ymresymu'n dreiddgar<br>• datblygu ac ehangu syniadau yn drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau yn gywir ac yn bwrpasol<br>• cyflwyno dadleuon gwreiddiol gan ymateb yn aeddfed ac yn dreiddgar | A<br>(i)(ii)<br>8-10 | • mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir<br>• saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| B<br>(i)(ii)<br>7 | • arddangos gwybodaeth fanwl o'r testunau<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol ac yn dangos iddynt eu deall drwy eu cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau gan ddadansoddi ac ymresymu'n deallus<br>• datblygu ac ehangu syniadau yn drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau perthnasol<br>• cyflwyno dadleuon gwreiddiol gan ymateb yn ddeallus | B<br>(i)(ii)<br>7 | • mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio'u gwaith yn fanwl<br>• rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn briodol<br>• arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen |

© WJEC CBAC Cyf.

| Gradd | AA2 (i)(ii) | Gradd | AA3(i)(ii) |
|---|---|---|---|
| C<br>(i)(ii)<br>6 | • arddangos gwybodaeth helaeth o'r testunau<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n glir ac yn gydlynus<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau gan ymresymu'n effeithiol<br>• datblygu ac ehangu'r prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas<br>• cyflwyno dadleuon yn ddeallus ac yn ddychmygus | C<br>(i)(ii)<br>6 | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio gwaith yn ofalus<br>• rhoi sylw i gywair drwy amrywio'r arddull<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen |
| D<br>(i)(ii)<br>5 | • arddangos gwybodaeth briodol o'r testunau gan gyflwyno ffeithiau perthnasol yn gywir<br>• arddangos dealltwriaeth o'r prif gysyniadau<br>• datblygu ac ehangu rhai syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau addas ar adegau<br>• cyflwyno rhai dadleuon yn uniongyrchol | D<br>(i)(ii)<br>5 | • mynegi eu hunain yn eithaf clir a chywir<br>• cynllunio gwaith yn eithaf gofalus<br>• arddangos ymwybyddiaeth o gywair<br>• arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen |
| E<br>(i)(ii)<br>4 | • arddangos gwybodaeth o gynnwys testunau drwy gyflwyno ffeithiau perthnasol a chreu cymariaethau<br>• cyfeirio at rai elfennau penodol yn y gweithiau a drafodir wrth ddatblygu syniadau<br>• dyfynnu o'r testunau'n achlysurol<br>• cyflwyno dadleuon yn syml | E<br>(i)(ii)<br>4 | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan<br>• arddangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen |
| U<br>(i)(ii)<br>0-3 | • Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig | U<br>(i)(ii)<br>0-3 | • Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig |

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B – Trawsieithu**

**Cwestiwn 2 Cyfanswm 40 marc**

Y prawf ydy pwyso a mesur a ydy'r ymgeiswyr wedi deall cynnwys yr erthygl Saesneg ac yn gallu defnyddio iaith yn y cywair priodol wrth ymateb ac wrth drawsieithu.

Yn y cwestiwn hwn disgwylir ymatebion i'r ddwy ran a pharodrwydd i ddatgan barn ar y ffeithiau a nodir yn y darn.

| Gradd | AA3- Ysgrifennu |
|---|---|
| A<br><br>32 - 40 | • mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir<br>• saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn rymus<br>• arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| B<br><br>26 - 31 | • mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio'u gwaith yn fanwl<br>• rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn briodol<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn glir ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol<br>• arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen |
| C<br><br>20 - 25 | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio gwaith yn ofalus<br>• rhoi sylw i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• mynegi barn yn effeithiol ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen |
| D<br><br>14 - 19 | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir wrth ysgrifennu<br>• cyflwyno gwaith yn eithaf gofalus<br>• arddangos ymwybyddiaeth o gywair, ffurf a chynulleidfa<br>• mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau perthnasol<br>• arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen |
| E<br><br>8 - 13 | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan wrth ysgrifennu<br>• arddangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau dilys<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen |
| U<br>0 - 7 | • Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig |

© WJEC CBAC Cyf.

**CA6**

## ADRAN A

### Defnyddio'r Iaith

**C.1 Cyfanswm 30 marc**

(i) **18 marc (6 x 3)**

**3 marc** am bob brawddeg sydd yn dangos yn eglur ystyr a defnydd yr eitemau ac yn **berffaith gywir** o ran cywirdeb iaith.

Cosbir hyd at **2 farc** am wallau iaith mewn brawddegau sy'n dangos yn eglur ystyr a defnydd yr eitemau.

[cosbi ½ am wall treiglo
cosbi ½ marc am gamddefnyddio arddodiad / y fannod / rhagenw
cosbi ½ marc am atalnodi'n anghywir
cosbi ½ marc am gamsillafu
cosbi 1 marc am wall cystrawennol]

**0 marc** os nad yw'r ystyr yn hollol glir.

(ii) **12 marc (4 x 3)**

**3 marc** am bob brawddeg sydd yn dangos yn eglur ystyr a defnydd yr eitemau ac **yn berffaith gywir** o ran cywirdeb iaith.

Cosbir hyd at **2 farc** am wallau iaith mewn brawddegau sy'n dangos yn eglur ystyr a defnydd yr eitemau.

**0 marc** os nad yw'r ystyr yn hollol glir.

© WJEC CBAC Cyf.

**C.2 Cyfanswm 15 marc**

**1 marc yr un** am bob eitem sydd wedi'u tanlinellu isod. Rhaid i'r eitem honno fod yn gwbl gywir er mwyn ennill marc**. Ni ddyfernir hanner marciau.**

Atebion cywir:

(i) Dydw i / Dw i ddim yn credu / meddwl fy mod i'n gwybod yr ateb.
(ii) Os bydd hi'n braf yfory fe â i / af i/ bydda i'n mynd i'r traeth.
(iii) Darllenais i amdano fe yn y papur.
(iv) Cyn bo hir bydda i'n mynd i'r coleg.
(v) Dywedais i wrtho y byddwn i'n mynd ar fy ngwyliau.

(Gellir defnyddio'r rhagenw **o / fo** yn hytrach nag **e / fe**)

© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B**

**Barddoniaeth**

**C.3 Cyfanswm 75 marc**

| | **AA2** | **AA3** |
|---|---|---|
| (a) | 10 | 10 |
| (b) | 10 | 10 |
| (c) | 20 (synoptig) | 15 |
| Cyfanswm | 40 | 35 |

(Meini prawf mewn print bras - asesu synoptig yn unig)

| **Gradd** | **AA2(a) a (b)** | **Gradd** | **AA3 (c)** |
|---|---|---|---|
| **A**<br><br>**(a) (b)**<br>**8-10**<br><br>**(c)**<br>**16-20** | • arddangos gwybodaeth eang a manwl-gywir o'r testunau<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol ac yn dangos iddynt eu deall drwy eu cyflwyno'n gywir ac yn gydlynus<br>• **croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau'r pwnc yn ôl yr angen**<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn o'r cysyniadau gan ddadansoddi ac ymresymu'n ddeallus<br>• datblygu ac ehangu syniadau yn drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau yn gywir ac yn bwrpasol<br>• cyflwyno dadleuon gwreiddiol gan ymateb yn aeddfed ac yn dreiddgar | **A**<br><br>**(a) (b)**<br>**8-10**<br><br>**(c)**<br>**12-15** | • mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn rymus<br>• arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **B**<br><br>**(a) (b)**<br>**7**<br><br>**(c)**<br>**14-15** | • arddangos gwybodaeth fanwl o'r testun<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol ac yn dangos iddynt eu deall drwy eu cyflwyno'n gywir<br>• **croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau'r pwnc yn ôl yr angen**<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau gan ddadansoddi ac ymresymu'n ddeallus<br>• datblygu ac ehangu'r syniadau yn drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau perthnasol<br>• cyflwyno dadleuon gwreiddiol gan ymateb yn ddeallus | **B**<br><br>**(a) (b)**<br>**7**<br><br>**(c )**<br>**11** | • mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• cynllunio'u gwaith yn fanwl<br>• rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn briodol<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn glir ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol<br>• arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen |

© WJEC CBAC Cyf.

<table>
<tr><td>C<br><br>(a) (b)<br>6<br><br>(c)<br>12-13</td><td>• arddangos gwybodaeth helaeth o'r testunau<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n glir ac yn gydlynus<br>• croesgyfeirio rhwng rhai o wahanol agweddau'r pwnc<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau gan ymresymu'n effeithiol<br>• datblygu ac ehangu'r prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas<br>• cyflwyno dadleuon yn ddeallus ac yn ddychmygus</td><td>C<br><br>(a) (b)<br>6<br><br>(c)<br>9-10</td><td>• mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• cynllunio'u gwaith yn ofalus<br>• rhoi sylw i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• mynegi barn yn effeithiol ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen</td></tr>
<tr><td>D<br><br>(a) (b)<br>5<br><br>(c)<br>10-11</td><td>• arddangos gwybodaeth briodol o'r testun gan gyflwyno ffeithiau perthnasol yn gywir<br>• cyfeirio at rai o wahanol agweddau'r pwnc<br>• arddangos dealltwriaeth o'r prif gysyniadau<br>• datblygu ac ehangu rhai syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau addas ar adegau<br>• cyflwyno rhai dadleuon yn synhwyrol</td><td>D<br><br>(a) (b)<br>5<br><br>(c )<br>8</td><td>• mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir wrth ysgrifennu testunau gwahanol<br>• cyflwyno gwaith yn eithaf gofalus<br>• arddangos ymwybyddiaeth o gywair, ffurf a chynulleidfa<br>• mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau perthnasol<br>• arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen</td></tr>
<tr><td>E<br><br>(a) (b)<br>4<br><br>(c)<br>7-9</td><td>• arddangos gwybodaeth o gynnwys testunau drwy gyflwyno ffeithiau perthnasol a chreu cymariaethau<br>• cyfeirio at rai elfennau penodol yn y gweithiau a drafodir wrth ddatblygu syniadau<br>• dyfynnu o'r testunau'n achlysurol<br>• cyflwyno dadleuon yn syml</td><td>E<br><br>(a)  (b)<br>4<br><br>(c)<br>6-7</td><td>• mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan wrth ysgrifennu testunau uniongyrchol<br>• arddangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau dilys<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen</td></tr>
<tr><td>U<br><br>(a) (b)<br>0-3<br><br>(c)<br>0-6</td><td>• bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig</td><td>U<br><br>(a) (b)<br>0-3<br><br>(c)<br>0-5</td><td>• bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Cyf.

**(a)** **20 marc (10 marc** cynnwys **: 10 marc** mynegiant**)**

Disgwylir cyfeiriadau at y ffeithiau canlynol:

- yn y pennill cyntaf y bardd yn gofyn dau gwestiwn rhethregol: yn holi a ydy'r darllenydd yn caru'r cread a'i ryfeddodau megis yr haul a'r sêr, y pysgod a'r blodau. Yna yn holi a ydy'r darllenydd yn caru'r byd ac yna'r ergyd yn y cwpled olaf sef cariad at Gymru

- yn yr ail bennill y bardd yn manylu ac yn cyfeirio'n benodol at harddwch Cymru, megis, y bryniau, y môr, yr afonydd, y trefi a'u traethau bach, tawel. Yna cyfeiria at hynawsedd y bobl cyn gorffen y pennill drwy holi a ydy'r darllenydd yn caru popeth am y wlad

- yn y trydydd pennill newid cywair. Rhestrir rhai o'r agweddau llai dymunol a llai deniadol, megis, y cymoedd, y siopau betio, y capeli gweigion, y tywydd anffafriol a'r glaw sy'n aml yn nodweddu adeg yr eisteddfod ac ardaloedd fel Blaenau Ffestiniog. Yn gorffen y gerdd drwy ofyn a fydd y darllenydd yn caru pob agwedd o Gymru

- ergyd y gerdd: holi dwyster cariad y darllenydd at Gymru.

(b) **20 marc** (**10 marc** cynnwys : **10 marc** mynegiant)

Disgwylir trafod nodweddion arddull y gerdd ynghyd â mynegi barn a'r effeithiolrwydd yr arddull a'r technegau arbennig.

Gellir cyfeirio at y canlynol:

- cerdd yn y wers rydd a'r bardd yn mynegi un teimlad neu syniad

- tri phennill a hyd y llinellau'n amrywio. Yr amrywiaeth yn hyd y llinellau'n cyfleu rhythm arbennig

- amrywiaeth yn y patrwm odli: yn y pennill cyntaf yr ail linell yn odli a'r bedwaredd a'r chweched a'r wythfed; yn yr ail bennill y llinell gyntaf a'r drydedd, yr ail a'r bedwaredd a'r chweched a'r wythfed. Yn y pennill olaf ceir yr un patrwm ag yn y pennill cyntaf. Yr odl gyson yn nodwedd amlwg yn y gerdd

- effeithiolrwydd y gyfres o gwestiynau rhethregol drwy'r gerdd gan ddefnyddio'r un ferf, sef, *a gymri di?*

- trwy ailadrodd y geiriau *a gymri di* mae'r bardd yn rhoi fframwaith i'r gerdd ac yn pwysleisio'r hyn sy'n bwysig

- mae'r gyfres o gwestiynau *a gymri di* yn arwain at yr uchafbwynt yng nghwpled olaf y gerdd. Dyma'r hyn sy'n holl bwysig i'r bardd

© WJEC CBAC Cyf.

- adeiladwaith y gerdd: darluniau hollol wahanol yn y tri phennill – y cread, y gwledydd ac yna Cymru yn y pennill cyntaf. Harddwch Cymru a'i phobl yn yr ail. Nodweddion llai dymunol o'r wlad yn y pennill olaf
- gwrthgyferbyniadau trawiadol iawn yn y tri phennill
- diwedd trawiadol i bob pennill wrth i'r bardd ddwysau ei gwestiwn wrth holi'r darllenydd
- ergyd cwpled olaf y gerdd.

(c) **35 marc (20 marc** cynnwys**: 15 marc** mynegiant)

Disgwylir croesgyfeirio at destunau penodol a ddarllenwyd neu a wyliwyd yn ystod y cwrs. **Rhaid bod yna gysylltiad clir â thema'r gerdd** dan sylw. Yn y cyswllt hwn y brif thema yw cariad yr unigolyn at Gymru.

**Pa ddehongliad bynnag a geir neu drywydd a ddilynir rhaid cyfeirio at y gwahanol destunau yn y cwrs – y cerddi, ffilmiau, y ddrama, y storïau neu erthyglau penodol.**



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

Ⓗ WJEC CBAC Cyf.